Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad ar

# Standing To Grow Playgroup

Nantyffyllon Miners Institute
Bangor Terrace
Maesteg
Pen-y-bont ar Ogwr
CF34 0HU

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Standing To Grow Playgroup

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Standing To Grow Playgroup |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Amanda Standing |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Ddim yn berthnasol |
| Person â gofal | Gemma Davies |
| Nifer y lleoedd | 32 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 15 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 15 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 8.30-12.20 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Wedi'i gofrestru ar gyfer cyllid Dechrau'n Deg |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 23 Ionawr 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22 Tachwedd 2019 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/06/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Ffurfioli systemau'r lleoliad ar gyfer goruchwylio staff

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron pob un o'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac mae ganddynt lais cryf. Gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau priodol ynghylch yr hyn sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, maent yn dewis gweithgareddau ac adnoddau yr hoffent chwarae â nhw dan do neu yn yr awyr agored. Mae plant yn mynegi eu hunain yn dda trwy gyfathrebu geiriol a di-eiriau. Er enghraifft, pan gânt eu gwahodd i chwarae, maent yn dweud na yn glir neu'n ysgwyd eu pennau os nad ydynt eisiau ymuno â'r gweithgaredd.

Mae gan blant berthynas agos ag ymarferwyr ac maent yn cael cymorth a chysur, yn ôl yr angen. Mae bron pob un o'r plant yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a gofalwyr ac yn ymgartrefu'n gyflym ac yn mynd ati i chwarae. Mae bron pob un o'r plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn gwybod i olchi eu dwylo cyn bwyta. Mae plant iau yn teimlo'n ddigynnwrf wrth gael newid eu clytiau gan fod ymarferwyr yn rhoi sicrwydd iddynt drwy sgwrsio â nhw.

Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio ac yn chwarae ochr yn ochr â phlant eraill yn briodol ar gyfer eu cyfnod datblygu. Maent yn dechrau rhannu teganau ac yn cymryd tro wrth chwarae â phlant eraill. Mae'r plant yn canolbwyntio ar gyfnod priodol, er enghraifft wrth fesur a chymysgu cynhwysion ar gyfer toes. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser byrbryd. Maent yn eistedd wrth y bwrdd yn briodol ac yn ymarfer moesau da.

Mae plant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Mae bron pob un o'r plant yn ymgysylltu â'u gweithgareddau dewisol. Maent yn parchu teganau ac adnoddau trwy eu rhoi'n ofalus yn y basgedi cywir yn ystod amser tacluso. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i ymarferwyr sy'n eu hatgoffa o reolau'r lleoliad mewn modd sensitif, fel yr angen i ddefnyddio dwylo caredig wrth chwarae â'u ffrindiau ac i rannu. Mae hyn yn eu helpu i ddeall beth sy'n dda a drwg.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu'n dda trwy'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau chwarae blêr yn y gornel grefftau, gan gymryd amser i archwilio gwahanol baent cyn creu eu gwaith celf eu hunain gan ddefnyddio stampiau llysiau. Mae ychydig o blant yn mwynhau gwneud marciau ac mae llawer ohonynt yn archwilio'r llysiau a'r ffrwythau yn eiddgar yn ystod amser cylch. Wrth chwarae yn yr awyr agored, mae plant yn datblygu eu medrau corfforol a'u chwilfrydedd naturiol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymarfer eu medrau cydbwyso trwy ddringo i fyny ffrâm bren y llithren ac yn defnyddio amrywiaeth o groen oren a lemwn i'w gymysgu mewn powlenni o ddŵr, wrth ragfynegi a fydd y ffrwythau'n suddo neu'n arnofio.

Caiff plant gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau hunangymorth ac annibyniaeth. Maent yn ymweld â'r toiledau ac yn golchi eu dwylo gydag ychydig iawn o gymorth, os o gwbl, gan ymarferwyr. Maent yn dechrau defnyddio cyllyll yn annibynnol i dorri llysiau a ffrwythau neu daenu topins ar eu craceri. Mae ychydig o blant yn ymweld â'r orsaf hancesi yn ddigymell i sychu eu trwyn. Mae'r arferion rheolaidd hyn yn helpu plant i fagu'r hyder i roi cynnig ar dasgau'n annibynnol cyn gofyn am gymorth gan ymarferwyr.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Gwna'r rhan fwyaf o blant gynnydd da o'u mannau cychwyn yn y lleoliad. Maent yn mwynhau manteisio ar ystod eang o ddeunyddiau ysgogol ac yn gwneud penderfyniadau'n annibynnol am ble yr hoffent chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ac yn datblygu'r hyder i fynegi eu hunain a siarad yn glir mewn ystod o gyd-destunau gwahanol wrth chwarae. Er enghraifft, wrth iddynt chwarae yn yr ardal awyr agored yn y glaw, maent yn ateb y ffôn i gael sgwrs ddiddorol â'u mam. Mae plant nad ydynt yn mynegi eu hunain trwy iaith hyd yn hyn yn defnyddio arwyddion a chiwiau gweledol i rannu eu teimladau ag ymarferwyr. Mae diwylliant hynod effeithiol o fwynhau llyfrau a storïau yn y lleoliad. Mae plant yn mwynhau edrych ar lyfrau stori ac yn eistedd gyda'i gilydd gan wrando'n astud wrth i'r stori ddatblygu. Mae plant eraill yn chwarae wrth wrando ar y stori, gan fanteisio ar y profiad yn eu ffordd eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau gwneud marciau gydag ystod o ddeunyddiau gwahanol. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus ar y bwrdd du mawr yng nghanol yr ystafell chwarae, gan wneud siapiau â sialc o wahanol liwiau. Mae llawer ohonynt yn dangos medrau echddygol manwl datblygedig, gan drin a thrafod adnoddau a theclynnau'n fedrus, er enghraifft wrth dorri bwyd yn ystod amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd priodol â'u dealltwriaeth o'r Gymraeg. Wrth ymateb i sbardunau gan ymarferwyr, maent yn deall ystod o eirfa ac yn ymateb i gyfarwyddiadau yn briodol. Er enghraifft, yn yr ardaloedd awyr agored, mae plant yn mwynhau cyfrif yn Gymraeg wrth chwarae. Maent yn canu caneuon cyfarwydd, sy'n annog eu dealltwriaeth o ystod ehangach o eirfa.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda yn unol â'u cam datblygu. Maent yn defnyddio adnoddau â chodau lliw gwahanol ac mae llawer ohonynt yn adnabod rhifau yn fwyfwy hyderus. Mae llawer ohonynt yn gyfarwydd ag enwau siapiau dau ddimensiwn syml ac yn dangos dealltwriaeth dda o gysyniadau fel llawn a gwag gan ddefnyddio cynwysyddion gwahanol. Er enghraifft, maent yn mesur blawd a dŵr yn barod i gymysgu'r toes. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Maent yn mwynhau defnyddio meddalwedd graffig i wneud brasluniau, gan ddangos rheolaeth dda. Maent yn sgwrsio ar y ffôn wrth chwarae rôl, gan ddatblygu eu hyder wrth siarad mewn

cyd-destunau gwahanol ac yn defnyddio datgelyddion metel yn gywir i ddod o hyd i wrthrychau bach metel gwahanol yn y tywod.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos creadigrwydd da wrth ddefnyddio deunyddiau gwahanol yn hyderus i fynegi eu syniadau. Maent yn creu lluniau hyfryd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, creonau a phensiliau. Yn ystod wythnos plannu, maent yn creu dyluniadau manwl o ddail ac yn cynnwys ystod o ddeunyddiau i greu effaith. Yn rhan o'u dathliadau ar gyfer y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, maent yn dylunio eu symbolau Tsieineaidd eu hunain. Mae gan lawer o blant fedrau corfforol datblygedig. Maent yn chwarae'n hyderus gydag ystod dda o offer a theganau, gan ddangos cydbwysedd a chydsymudiad da. Yn yr ardaloedd awyr agored, maent yn mynd ar gefn beiciau ac yn dringo'r ysgol yn hyderus cyn teithio'n gyflym i lawr y llithren, gan fwynhau teimlad deunyddiau ar wahanol rannau o'u corff.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut i ddiogelu plant ac maent yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae ymrwymiad cryf i waith tîm a chydgyfrifoldeb ar draws y lleoliad. Mae hyn yn arwain at amgylchedd gwaith cadarnhaol, sy'n sicrhau lleoliad hapus i blant ac ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr y lleoliad yn ymwneud â diogelu, hylendid, iechyd a diogelwch. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd i gadw plant yn ddiogel a hybu ffordd iach o fyw. Er enghraifft, maent yn annog brwsio dannedd, yn darparu byrbrydau ffres a digon o gyfleoedd i blant fod yn egnïol a chwarae y tu allan yn yr awyr iach. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod dŵr yfed ffres a chwpanau ar gael yn rhwydd yn y gorsafoedd dŵr. Maent yn goruchwylio plant yn dda ac yn llenwi'r holl gofnodion perthnasol, fel cofrestrau, damweiniau a digwyddiadau. Mae ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân ac ymarferion cloi mewn argyfwng, sy'n golygu eu bod nhw a'r plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn garedig ac yn ofalgar. Maent yn rhoi strategaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod plant yn ymgartrefu a bod eu chwarae a'u profiadau dysgu yn gadarnhaol. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac, o ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae hyn yn creu amgylchedd cadarnhaol a difyr iawn sy'n hybu ymlyniadau cryf a diogel. Mae polisi rheoli ymddygiad y lleoliad yn cefnogi ymarferwyr i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â phlant. Maent yn canmol plant am ymddygiad a moesau da, er enghraifft pan fydd plant yn defnyddio dwylo caredig. Mae ymarferwyr yn cynnig cymorth sensitif i bob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae ymarferwyr yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio â'r plant yn dda trwy gydol eu chwarae ac maent yn fodelau rôl da. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda o ddatblygiad

plant. Maent yn trefnu profiadau chwarae a dysgu diddorol sy’n cael eu harwain gan ddewisiadau’r plant, sy’n galluogi plant i gydweithio a magu hyder. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn treulio amser yn dod i adnabod pob plentyn a’u teuluoedd yn dda. Maent wedi datblygu gweithdrefnau hynod effeithiol i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt bartneriaethau effeithiol ag ystod o asiantaethau cymorth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd a lles plant. Mae ymarferwyr yn asesu ac yn arsylwi plant yn ofalus ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i gynllunio amgylchedd dysgu cyfoethog.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod eang ac effeithiol o weithgareddau i blant. Maent wedi datblygu eu dulliau cynllunio yn unol â’r cwricwlwm nas cynhelir. Maent yn cynllunio cyfleoedd dysgu i gefnogi a datblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth plant a chefnogi eu hyder a’u hannibyniaeth.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a’r ffordd raddol y mae gwahanol unigolion yn magu hyder a medrau dros gyfnod. Mae hyn yn galluogi’r tîm i gydweithio’n dda â’i gilydd i gefnogi dysgu plant. Caiff hyn ei ddangos yn y ddarpariaeth hynod effeithiol i blant a all fod ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn taro cydbwysedd effeithiol rhwng caniatáu sesiynau estynedig o chwarae di-dor i blant, ochr yn ochr â’r angen i addysgu medrau penodol. Mae ymarferwyr yn fedrus yn y modd y maent yn holi plant, gan awgrymu ffyrdd y gallai’r plentyn ddatblygu ei syniadau, o bosibl. Maent yn rheoli rhyngweithiadau’n dda, gan annog plant i chwarae â’i gilydd a gwrando ar eu syniadau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau llafaredd plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio ystod o adnoddau gweledol i gefnogi dealltwriaeth plant, gan sicrhau hygyrchedd i bawb. Maent yn annog plant i fynegi eu hunain yn eu ffordd eu hunain ac yn cefnogi anghenion plant yn dda.

Mae diwylliant cryf o annog mwynhad trwy ddarllen yn y lleoliad, gydag ystod dda o lyfrau a sachau stori yn cael eu harddangos ac ar gael i’r plant. Mae’r dull hwn yn datblygu mwynhad plant o ddarllen ac yn sefydlu agwedd gadarnhaol tuag at storïau. Ar draws y ddarpariaeth, mae ymarferwyr yn darparu ystod dda o lythrennau a geirfa ddwyieithog elfennol, gan annog plant i ddechrau adnabod geiriau. Yn yr un modd, mae plant yn mwynhau cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar, gan wneud marciau mewn cyd-destunau gwahanol a dechrau creu siapiau llythrennau syml.

Ar draws y lleoliad, mae cyfoeth o adnoddau i gefnogi medrau mathemategol plant. Caiff plant eu hannog i fagu hyder wrth gyfrif yn ystod caneuon a rhigymau ac wrth chwarae â’i gilydd. Mae ymarferwyr yn darparu ystod effeithiol o adnoddau i ddatblygu medrau digidol

plant. Er enghraifft, mae plant yn dysgu i reoli teganau rhaglenadwy gwahanol yn hyderus. Mae ystod dda o adnoddau ar gael i gefnogi medrau corfforol plant. Mae ymarferwyr yn cydweithio â'i gilydd yn ddiwyd er mwyn sicrhau dull cyson o ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r plant. Er enghraifft, maent yn trafod lliwiau, yn cyfrif ac yn canu caneuon Cymraeg fel 'clap clap un dau tri.'

Mae darpariaeth effeithiol i feithrin datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol plant. Er enghraifft, maent yn dysgu am ddathliadau diwylliannol fel Diwali ac yn datblygu eu dyluniadau Tsieineaidd eu hunain gan ddefnyddio symbolau a lliwiau.

Mae ymarferwyr yn cyflawni rôl gweithiwr allweddol ar gyfer nifer benodol o blant ac yn cofnodi cerrig milltir arwyddocaol mewn datblygiad plentyn. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn deall y ffordd orau i gefnogi'r dysgu. Er enghraifft, maent yn herio plant mwy hyderus i ymestyn eu medrau, gan gynnig cymorth hynod effeithiol i blant hefyd, yn ôl yr angen, er mwyn iddynt fagu hyder.

Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth â rhieni a gofalwyr am brofiad y plant yn y lleoliad trwy gymhwysiad digidol defnyddiol.

### Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn ymroi i ddarparu amgylchedd diogel a sicrhau i blant ddysgu a chwarae ynddo. Mae'r amgylchedd dan do ac awyr agored yn ddiogel. Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd deniadol a chroesawgar sy'n lân ac wedi'i gynnal a chadw'n dda. Mae asesiadau risg effeithiol ar waith ac mae ymarferwyr yn monitro'r amgylchedd yn effeithiol trwy wiriadau gweledol rheolaidd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gosodiad yr ardaloedd chwarae yn hybu annibyniaeth plant yn llwyddiannus, gan eu galluogi i fanteisio ar deganau ac adnoddau o ansawdd da yn rhwydd. Mae amrywiaeth o adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau naturiol i ddatblygu medrau synhwyraidd, iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant. Caiff gwaith crefft a ffotograffau'r plant eu harddangos, sy'n helpu plant i ddatblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae digon o deganau, adnoddau a dodrefn sy'n addas ar gyfer yr oedrannau sydd dan ofal. Mae'r amgylchedd wedi'i rannu'n ardaloedd chwarae gwahanol ar gyfer gweithgareddau amrywiol fel ardal chwarae blêr, ardal ddarllen, ardal rifedd, ardal chwarae rôl ac ardal wyneb bwrdd. Mae ystafell dawel ar wahân ar gael, lle gall unrhyw blentyn fynd am rywfaint o amser tawel ac i ymlacio. Mae'n llawn teganau synhwyraidd, dodrefn meddal ac mae'n ardal ymlacio gyfforddus, sy'n cael ei defnyddio'n hyblyg i weddu i anghenion pob plentyn. Mae'r cyfleusterau toiled yn hygyrch iawn, sy'n hybu annibyniaeth gynyddol y plant.

Mae arweinwyr wedi creu amgylchedd awyr agored deniadol, sy'n caniatáu i blant ddefnyddio adnoddau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, mae ardal pwll tywod ar

gyfer chwarae darganfod a chornel dan gysgod sy'n caniatáu i blant ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn effeithiol. Mae'r ardal gegin awyr agored yn cynnig cyfleoedd i blant arbrofi a defnyddio offer ac adnoddau coginio go iawn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am y byd naturiol a bod ganddynt ardaloedd wedi'u trefnu iddynt blannu a thyfu eitemau i ddatblygu eu medrau meithrin. Mae arweinwyr yn sicrhau y caiff yr amgylchedd cyfan ei ddefnyddio'n dda a bod plant yn cael dewis annibynnol i chwarae dan do neu yn yr awyr agored ym mhob tywydd.

Mae arweinwyr yn cyfarparu'r amgylchedd yn effeithiol gydag adnoddau ac ardaloedd dysgu ysgogol. Maent yn darparu ystod fuddiol o adnoddau sy'n cefnogi plant i ddatblygu eu medrau yn effeithiol. Mae'r defnydd llwyddiannus o adnoddau go iawn yn gwella profiadau plant ac yn ysbrydoli eu chwilfrydedd a'u dysgu, fel offer electronig a TG go iawn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod amrywiol o adnoddau amlddiwylliannol, gan gynnwys doliau, llyfrau, ffigurau byd bach a phosau. Mae arweinwyr yn sicrhau y caiff gwyliau gwahanol eu dathlu er mwyn helpu plant i ddysgu am gredoau a diwylliannau gwahanol a hybu eu hymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer darpariaeth sydd wedi'i seilio ar gefnogi dysgu plant mewn amgylchedd hynod gefnogol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r holl staff ac maent yn cydweithio â'i gilydd yn ddiwyd i gynnal a gwella pob agwedd ar y ddarpariaeth yn gyson. Mae'r holl staff yn angerddol am sicrhau'r profiadau gorau posibl i'r plant dan eu gofal. Mae arweinwyr yn cynnal datganiad clir o ddiben sy'n adlewyrchu'r ddarpariaeth yn gywir. Maent yn sicrhau ystod addas o bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau perthnasol sy'n cadw at ofynion rheoleiddiol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau effeithiol i werthuso agweddau gwahanol ar ddarpariaeth yn y lleoliad. Maent yn cynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses hunanwerthuso er mwyn sicrhau eu bod yn cael ystod eang o safbwyntiau ynghylch pob agwedd ar y ddarpariaeth. Mae cynlluniau gwella'n cynnwys ystod o gamau gweithredu priodol a threfniadau i fonitro a gwerthuso effaith a chynnydd dros gyfnod. Mae staff yn hyderus ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd fel tîm. Maent wedi gweithio'n llwyddiannus i ddatblygu eu hymagwedd at Gwricwlwm i Gymru, cynllunio ymatebol a chydbwysedd o weithgareddau dan arweiniad plant a rhai sy'n cael eu sbarduno gan oedolion. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith newidiadau y maent wedi'u cyflwyno ar gynnydd a lles plant.

Mae gan arweinwyr systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod gan ymarferwyr gymwysterau addas ar gyfer eu rolau a bod pob agwedd ar ffeiliau staff yn darparu cofnod effeithiol o weithgareddau hyfforddi perthnasol. Mae staff yn cyfrannu'n llawn at broses werthuso flynyddol effeithiol ac yn cael cyfleoedd i rannu eu hanghenion dysgu

proffesiynol i'w cefnogi yn eu rôl yn y lleoliad. Er enghraifft, maent wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu dull o addasu'r amgylchedd dysgu i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae system anffurfiol briodol ar waith lle mae arweinwyr yn goruchwylio'r holl staff. Mae hyn yn darparu llif cyson o wybodaeth i arweinwyr am berfformiad staff a'u hanghenion datblygu ac yn cefnogi unigolion yn eu rolau. Fodd bynnag, nid yw'r system hon wedi'i ffurfioli'n llawn.

Mae arweinwyr wedi sefydlu a chynnal nifer o bartneriaethau cryf ag ystod o grwpiau cymunedol a busnesau lleol, sy'n cynnig cyfleoedd dysgu buddiol a chymorth ymarferol i'r lleoliad. Er enghraifft, mae ganddynt gysylltiadau da â'r gwasanaeth tân lleol ac maent yn ymweld â'r orsaf i ddysgu am bwysigrwydd diogelwch tân. Mae perthynas waith effeithiol â thîm ymgynghorol y blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol, sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn cynnal perthynas agos â nifer o ysgolion cynradd lleol a'r ysgol arbennig leol i gefnogi plant wrth iddynt drosglwyddo i'r cam nesaf yn eu dysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2025